## ATODLEN 5

Rheoliad 33

## Ffioedd

### Ffioedd blynyddol

**1.**—(1) At ddibenion adran 16(3) o'r Ddeddf, rhaid i ddarparwr cofrestredig practis deintyddol preifat dalu ffi flynyddol a swm y ffi flynyddol yw'r swm a bennir yn is-baragraff (2).

(2) Swm y ffi flynyddol sy'n daladwy yw—

(a) £500; neu

(b) £300, os nad yw'r practis deintyddol preifat yn cynnwys mwy nag un deintydd a bod y deintydd hwnnw yn darparu—

(i) gwasanaethau deintyddol preifat; a

(ii) gwasanaethau deintyddol at ddibenion Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

(3) Pan fo person yn cofrestru mewn cysylltiad â phractis deintyddol preifat—

(a) bydd y ffi flynyddol gyntaf yn daladwy ar ddyddiad un mis ar ôl dyddiad y cofrestriad cyntaf ("y dyddiad dyledus"); a

(b) ar ôl hynny, bydd y ffi flynyddol yn daladwy ar 1 Ebrill bob blwyddyn.

(4) Mae'r ffi flynyddol gyntaf y cyfeirir ati yn is-baragraff (3)(a) i gael ei chyfrifo'n un rhan o ddeuddeg o £500 neu £300, yn ôl y digwydd, ar gyfer pob mis cyfan o'r dyddiad dyledus i'r tro cyntaf y daw 31 Mawrth yn union ar ôl y dyddiad dyledus.

### Ffi gofrestru

**2.** At ddibenion adran 12(2) o'r Ddeddf, mae'r ffi sydd i fynd gyda chais gan naill ai darparwr neu reolwr sy'n ceisio cael ei gofrestru o dan Ran 2 o'r Ddeddf mewn perthynas â phractis deintyddol preifat yn £0.

### Ffi mewn cysylltiad â cheisiadau i amrywio amod cofrestru

**3.** At ddibenion adran 15(3) o'r Ddeddf, mae'r ffi sydd i fynd gyda chais gan y person cofrestredig o dan adran 15(1)(a) o'r Ddeddf i amrywio amod cofrestru mewn cysylltiad â phractis deintyddol preifat fel a ganlyn—

(a) ar gyfer amrywiad mawr mae'r ffi wedi ei phennu'n £500;

(b) ar gyfer mân amrywiad mae'r ffi wedi ei phennu'n £250.

### Ffi mewn cysylltiad â cheisiadau i ddileu amod cofrestru

**4.** At ddibenion adran 15(3) o'r Ddeddf, mae'r ffi sydd i fynd gyda chais gan y person cofrestredig o dan adran 15(1)(a) o'r Ddeddf i ddileu amod cofrestru mewn cysylltiad â phractis deintyddol preifat wedi ei phennu'n £50.

### Ad-dalu ffioedd blynyddol

**5.**—(1) Pan fo'r darparwr cofrestredig yn gwneud cais i ganslo ei gofrestriad o dan adran 15(1)(b) o'r Ddeddf o fewn chwe mis i'r 1 Ebrill blaenorol a bod yr awdurdod cofrestru yn cytuno i ganiatáu'r cais hwnnw, bydd ad-daliad o hyd at 75% o'r ffi flynyddol yn cael ei dalu i'r darparwr cofrestredig.

(2) Mae swm yr ad-daliad y mae hawl gan ddarparwr cofrestredig i'w gael yn chwarter o'r ffi flynyddol a delir ar gyfer pob chwarter cyfan sy'n weddill o'r cyfnod o ddeuddeng mis y mae'n

ddyledus ar ei gyfer ar y dyddiad y mae'r awdurdod cofrestru yn cael y cais i ganslo ac mae'n ddarostyngedig i uchafswm ad-daliad o 75%.